Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau

# Pam mae twyni tywod yn bwysig?



Mae twyni tywod yn amddiffyn rhag llifogydd arfordirol

Mae twyni tywod yn dirffurfiau arfordirol deinamig ac yn rhwystr rhwng y môr a'r tir. Gallant helpu i ddiogelu trefi arfordirol, busnesau ac ardaloedd amaethyddol isel rhag llifogydd.



**Mae twyni tywod yn helpu i leihau perygl erydu arfordirol**

Mae twyni'n diogelu ardaloedd arfordirol isel rhag llifogydd a gallant glustogi rhag erydiad, gan weithredu cylch deinamig rhwng cyfnodau o groniant ac erydiad gan ddibynnu ar amodau hinsoddol. Mae twyni tywod yn storfa o dywod, sy'n cyflenwi gwaddod i'r traeth yn ystod cyfnodau o erydiad ac yn ystod cyfnodau o groniant.



**Defnyddiwyd systemau twyni tywod yn lleoliadau hyfforddi milwrol o'r blaen, a rhai ohonynt felly o hyd**

Chwaraeodd systemau twyni tywod fel Cynffig ran bwysig yn yr Ail Ryfel Byd wrth gael eu defnyddio ar gyfer tanio magnelau ac ymarfer tanciau. Mae rhai, fel Maes Pentywyn yn Sir Gaerfyrddin, yn parhau i gael eu defnyddio gan y fyddin ar gyfer hyfforddiant a phrofion. Mae'r dirwedd yn darparu amodau gyrru anialwch realistig ac amgylchedd heriol i lywio drwyddo.



**Mae systemau twyni tywod yn darparu pori ar gyfer da byw**

Gall pori wedi'i reoli'n dda ar dwyni tywod, gyda'r nifer cywir o wartheg, defaid neu geffylau, gyfrannu at ffermio da byw cynaliadwy a gall hefyd atal llystyfiant annymunol. Pe baent yn cael eu gadael, byddai planhigion fel mieri, a llwyni fel helyg a'r ddraenen wen yn gorchuddio twyni tywod mewn blanced o brysgwydd.

Drwy fwyta'r rhywogaethau cystadleuol sy'n tyfu'n gyflym a chaniatáu i olau gyrraedd haen arwyneb y twyni, mae pori da byw yn helpu i greu lle i blanhigion a blodau sensitif a llai cystadleuol ffynnu. Mae pori cynaliadwy hefyd yn sicrhau bod gwahanol uchderau o laswellt a llystyfiant a all ddenu amrywiaeth gyfoethog o bryfed a bywyd gwyllt.



**Mae systemau twyni tywod yn darparu storfa dŵr daear**

Mae natur fandyllog twyni tywod yn caniatáu i law trwm ymdreiddio'n gyflym. Mae'r dŵr yn treiddio i lawr drwy'r tywod i haenau daearegol sylfaenol twyni tywod sy'n gallu darparu storfa dŵr daear. Mae haenau clai neu fawn trwchus o dan yr haenau tywod yn rhwystro ymdreiddiad i haenau dyfnach ac yn arwain at amodau lefel trwythiad dŵr clo.

Mewn rhai gwledydd fel yr Iseldiroedd, mae dŵr yfed yn cael ei hidlo drwodd a'i dynnu o dwyni tywod. Gwyddys bod hyn yn digwydd ers y 1850au pan ddaeth cyflenwad enfawr o ddŵr twyni ffres yn brif ffynhonnell dŵr yfed ar gyfer dinasoedd yr Iseldiroedd.



**Mae systemau twyni tywod yn darparu ardaloedd ar gyfer hamdden a dysgu**

Gall twyni tywod gynnal gweithgareddau hamdden a dysgu gan gynnwys cerdded, beicio, marchogaeth a golff (er bod twyni tywod yn cael eu newid yn helaeth ar gyfer golff) ac maent yn cynnig lleoliad perffaith i bobl fynd allan i gysylltu â natur a gwella eu hiechyd a'u lles.



## Mae systemau twyni tywod yn cynnal bioamrywiaeth

Cynefinoedd twyni tywod yw un o'r mathau mwyaf naturiol o lystyfiant sy'n weddill yn y DU. Maent yn cynnal mwy na 70 o rywogaethau llyfr data coch neu brin yn genedlaethol ac maent yn lloches i lawer o rywogaethau iseldir a gollwyd oherwydd gwelliant amaethyddol. Mae twyni tywod yn cynnal amrywiaeth eang o blanhigion ac anifeiliaid, gan gynnwys llawer o rywogaethau sydd â gofynion arbenigol iawn.

Gellir dod o hyd i blanhigion fel briwydd, tegeirianau'r fign, petal-lys a chaldrist yn tyfu ymhlith y twyni. Gellir dod o hyd i rywogaethau adar fel yr ehedydd a chorhedydd y waun uwchben. Mae ardaloedd cysgodol yn cynhesu'n gyflym ac yn cynnig cynefin i infertebratau fel madfall y twyni a'r llyffant cefnfelyn. Er bod mannau agored cynnes yn gallu bod yn dda ar gyfer ymlusgiaid, mae'r twyni hefyd yn gartref i lawer o rywogaethau anhygoel o fwsoglau, llysiau'r afu a ffyngau.

SoLIFE: LIFE 17 NAT/UK/000023

Mae prosiect Twyni Byw-Sands of LIFE wedi cael cyllid gan Raglen LIFE yr Undeb Ewropeaidd. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**